Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Plismona** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Gynadledda SCHTh** |
| **Dyddiad:** | **15 Ionawr 2019** |
| **Amser:** | **09:00 – 13:00** |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh )<br>Y Prif Gwnstabl Mark Collins (PG)<br>Beverley Peatling, Prif Swyddog Ariannol (PSA) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Y Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro Richard Lewis (DBG/DD)Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro Vicki Evans (PGC/DD)<br>Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (CC)<br>Y Prif Uwch-arolygydd Steve Cockwell, (SC)<br>Marc Jones, Uwch Reolwr Gweithredol TGCh (MJ)<br>Steve Cadenne, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Pobl (SC)<br>Jayne Butler, Swyddog Staff, HDP (JB)<br>Chris Neve, Swyddog Staff (CN)<br>Mair Harries (MH) |
| **Ymddiheuriadau:** | Y Prif Gwnstabl Mark Collins (PG)<br>Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (PS)<br>Carys Morgans, Chief of Staff, OPCC (CoS) |

**CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 18/12/2018**

| Rhif y Cam Gweithredu | Crynodeb o'r Cam Gweithredu | Diweddariad Ynghylch Cynnydd |
|---|---|---|
| **PB 2378** | **Yr Heddlu i roi dyddiadau Cyfarfodydd Troseddau Gwledig Rhanbarthol i aelodau'r Panel Heddlu a Throseddu.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2379** | **Y CHTh i dderbyn cofnodion cyfarfodydd Grŵp Prif Swyddogion Cymru i'w trafod gyda Paul Morris.** | **Rhyddhawyd** |
| **PB 2380** | **Y CHTh a'r PSA i drafod dogfennau ariannol a ddarparwyd ym Mwrdd Plismona 18 Rhagfyr er mwyn gofyn cwestiynau ynghylch y sbectrwm o ddewisiadau a ddarparwyd gan y CC. Bydd y cwestiynau'n cael eu holi yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona ar 29 Ionawr.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2381** | **Y CC i roi senarios i'r CHTh sy'n dangos sut beth fyddai pob dewis praesept.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2382** | **Y CHTh i gwrdd â Chadeirydd y Panel a'r Aelod Cyllid Arweiniol cyn cyfarfod y Panel Heddlu a Throseddu.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2383** | **SCHTh i astudio'r cytundeb gwreiddiol ar gyfer y Prosiect Braenaru ac ystyried** | **Yn parhau** |

| | | |
|---|---|---|
| | **dewisiadau ar gyfer y tymor byr.** | |
| **PB 2384** | **DH i ymgysylltu â'r Prif Arolygydd Matt Scrase ynghylch cynllun cyfathrebu yn y dyfodol am y Prosiect Braenaru.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2385** | **Y CC a'r PSA i ystyried y Cytundeb Camau Cynnar Gyda'n Gilydd cyn mynd nôl at y BP ar gyfer llofnodi yn y flwyddyn newydd.** | **Cwblhawyd** |

| **CRYNODEB O'R PENDERFYNIADAU O GYFARFOD 15/01/2019** | | |
|---|---|---|
| | | |
| **PB T2 84** | **Yr heddlu i gychwyn gwaith ar gaffael System Rheoli Cofnodion.** | **CC/Caffael** |
| **PB T2 85** | **Cytunodd y Bwrdd y dylid bwrw ymlaen â gwerthu'r hen orsaf heddlu yng Nghydweli i'r Ffederasiwn Heddlu.** | **CY** |
| **PB T2 86** | **Cymeradwyodd y Bwrdd benderfyniad i wobrwyo'r Tendr Rheoli Cyfleusterau i gwmni CBRE Cyf a nodwyd fod angen cynnwys arbedion effeithlonrwydd yn y dyfodol yn y cynllun effeithlonrwydd.** | **CY** |
| **PB T2 87** | **Cytunwyd y dylid mabwysiadu'r Polisi ar gyfer Codi Tâl am Wasanaethau Heddlu Arbennig a'i weithredu'n gyson.** | **CC** |
| **PB T2 88** | **Gwobrwyodd y Bwrdd y cytundeb ar gyfer darpariaeth 31 dyfais fideo yn y car i gwmni Axan am gost o £236,000.** | **CC** |
| **PB T2 89** | **Gwobrwyodd y Bwrdd y cytundeb ar gyfer Recordio Cyfweliadau Digidol i gwmni Capita am gyfnod o 5 mlynedd am gost o £482,724.70.** | **CC** |
| **PB T2 90** | **Cytunodd y Bwrdd na fyddai HDP a De Cymru'n cydweithio ar wasanaethau cyfreithiol.** | **DBG/DD** |

## 2. Cofnodion Cyfarfodydd Blaenorol

Gydag ambell newid mân, penderfynodd y Bwrdd fod cofnodion cyfarfod diwethaf y Bwrdd Plismona'n adlewyrchiad gwir a chywir o'r cyfarfod hwnnw.

**Cam Gweithredu: Diweddariad y Grŵp Aur i'w gyflwyno yng nghyfarfod y BP ym mis Chwefror.**

Diolchodd y PG a'r CHTh i'r Swyddog Staff JB am ei gwaith ardderchog yn ystod ei chyfnod yn y swydd gan mai hwn fydd ei chyfarfod olaf cyn symud ymlaen i swydd arall.

## 3. Diweddariad y Prif Gwnstabl

## Diweddariadau Gweithredol

Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd fod 16 swyddog wedi dioddef ymosodiad ar ddyletswydd ers cyfarfod diwethaf y BP. Rhoddwyd sawl diweddariad, gan gynnwys dau wrthdrawiad traffig y ffyrdd angheuol, troseddau rhywiol ledled yr ardal heddlu, ac achos crwner sy'n parhau yn Hwlffordd, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.

## Diweddariadau Sefydliadol

Hysbyswyd y Bwrdd fod canlyniadau'r arolwg staff wedi'u cyflwyno.

**Cam Gweithredu: Trafodaeth i'w chynnal rhwng y CHTh a'r PGC/DD yn dilyn canlyniadau'r arolwg staff.**

## 4. Diweddariad y CHTh

### Lleol

Diweddarodd y CHTh y Bwrdd ynglŷn â'i gysylltiad â staff heddlu sy'n gweithio yng Nghanolfan Reoli'r Heddlu a rhoddodd wybod i'r Bwrdd am ei ymweliadau ymgysylltu â Llandrindod, Llanfair-ym-Muallt a Thalgarth lle y cymerodd ran mewn cyfarfod gydag Un Llais Cymru, gan ganolbwyntio a'r Blismona'r Ffyrdd.

### Cenedlaethol

Diweddarodd y CHTh y Bwrdd ynglŷn â'i bresenoldeb yn un o gyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Arfau Saethu yn Ne Cymru.

## 5. Pwnc y Mis: Cyllid

Diweddarodd y PSA a'r CC y Bwrdd ynglŷn â'u cynllun ar gyfer adrodd ariannol cliriach wrth symud ymlaen i'r flwyddyn newydd er mwyn sicrhau gwell aliniad â chyfarfodydd. Diolchodd y CHTh i'r CC a'r PSA am eu mewnbwn i'r adroddiad Cynllun Ariannol Tymor Canolig a fydd yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Panel Heddlu a Throseddu yn Aberaeron ar 25 Ionawr. Dywedodd y PSA y byddai'r ddogfen yn cael ei rhannu ag aelodau o'r Cyd-bwyllgor Archwilio.

## 6. Eitemau Sefydlog

### a) AD

Diweddarodd SC y Bwrdd ynglŷn â gwell manylder yn niweddariad yr adran AD a chyflwynodd set o ddata wedi'i symleiddio. Roedd yn gobeithio y byddai hynny'n addas ar gyfer ffocws misol. Roedd yr adroddiad yn cynnwys data rhagfynegol ar gyfer mis Ebrill a mis Mehefin 2019 sy'n awgrymu tuedd ar i lawr yn nifer y swyddogion, gan arwain at 50 swyddog yn llai ym mis Mehefin 2019 nag ym mis Ebrill 2018. Cafwyd trafodaeth ynghylch nifer yr arolygwyr sy'n Brif Arolygwyr Dros Dro. Dywedodd y DBG/DD fod hyn am gyfnodau byr o 6 mis ar un prosiect, er enghraifft, gadael yr Uned Ewropeaidd. Dywedodd y DBG/DD fod gwell system mewn grym ar gyfer rheoli lleoli swyddogion ledled yr heddlu er mwyn sicrhau bod adrodd tryloyw o ran swyddogion sy'n cael eu symud. Awgrymodd y PSA y byddai cynnwys tueddiadau hanesyddol yn ddefnyddiol, ynghyd â gwybodaeth am swyddi sydd â ffrydiau ariannu'n gysylltiedig â nhw a fyddai'n hwyluso tryloywder ynghylch perygl ariannol ac amlygiad.

**Cam Gweithredu: SC i gwrdd â'r PS a'r PSA er mwyn cwblhau'r gofynion ar gyfer y siart Pecyn Data AD sy'n dogfennu llif gwaith a symudiadau swyddogion dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gan gynnwys gwybodaeth am swyddi sydd â ffrydiau ariannu'n gysylltiedig â nhw, erbyn BP mis Chwefror.**

Cyflwynodd SC ddata salwch ar gyfer mis Rhagfyr, a oedd yn dangos cynnydd o ran salwch ymysg staff yr heddlu, ond nid swyddogion yr heddlu. Cafwyd dadansoddiad cryno o effaith y brechiad ffliw o fewn yr heddlu, gyda'r Bwrdd yn awgrymu bod llai o staff a oedd yn rhannu swyddfeydd gydag eraill yn cael eu brechu, gan arwain at gynnydd o ran lefelau salwch.

## 7. Materion i'w trafod

### a) Achos Busnes ar gyfer System Rheoli Cofnodion

Roedd MJ a SC yn bresennol yn y cyfarfod er mwyn trafod yr Achos Busnes dros System Rheoli Cofnodion ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys (HDP). Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r her o ymgorffori system TG newydd ledled yr Heddlu, a sut y gallai Dyfed-Powys ddod yn un â systemau heddluoedd eraill Cymru. Cyfeiriwyd at drafodaeth flaenorol â heddluoedd Cymru i alinio systemau swyddfa gefn TGCh, fodd bynnag, cydnabu'r Bwrdd fod systemau gwahanol yn cynnig cyfleoedd gwahanol ar gyfer cydweithio a'r gallu i ryngweithredu. Hysbysodd SC y Bwrdd y bu tri darparwr system posibl yn bresennol mewn gweithdy ar gyfer cynrychiolwyr HDP er mwyn cyflwyno eu systemau. Diolchodd y CHTh i'r tîm am ansawdd uchel yr adroddiad.

**Cam Gweithredu: Cynnal trafodaeth ynghylch costau System Rheoli Cofnodion y tu allan i gyfarfod y BP.**

**Penderfyniad : Yr heddlu i gychwyn gwaith ar gaffael System Rheoli Cofnodion.**

**b) Gwerthu Gorsaf Cydweli i'r Ffederasiwn Heddlu**

Dywedodd y CY fod y Ffederasiwn Heddlu wedi cadarnhau'n ysgrifenedig y bydd angen i HDP gefnogi costau TG parhaus yn unig.

**Penderfyniad: Cytunodd y Bwrdd y dylid bwrw ymlaen â gwerthu'r hen orsaf heddlu yng Nghydweli i'r Ffederasiwn Heddlu.**

Aeth y CY yn ei flaen i sôn am y Tendr Rheoli Cyfleusterau, gan argymell y dylai'r Bwrdd gymeradwyo rhoi'r tendr i gwmni o'r enw CBRE Cyf am gyfnod o 3 blynedd. Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd gan y CY yn amlinellu'r gwahaniaeth sylweddol mewn costau rhwng y tri pharti a oedd wedi gwneud cais ar gyfer y tendr, a dadansoddiad manwl o adenillion pob parti a'r gwasanaethau sydd ar gael.

**Penderfyniad: Cymeradwyodd y Bwrdd benderfyniad i wobrwyo'r Tendr Rheoli Cyfleusterau i gwmni CBRE Cyf a nodwyd fod angen cynnwys arbedion effeithlonrwydd yn y dyfodol yn y cynllun effeithlonrwydd.**

**c) Polisi ar gyfer Codi Tâl am Wasanaethau Heddlu Arbennig**

Cyfeiriodd y PSA at drafodaethau blaenorol a gafwyd yng nghyfarfodydd y Grŵp Aur Cyllid ar gyfer annog methodoleg gyson o ran codi tâl, sy'n cael ei hyrwyddo gan y polisi. Rhoddodd y SA siart llif i'r Bwrdd a oedd yn nodi sut y dylid bwydo penderfyniadau mewn perthynas â chodi tâl yn ôl i'r BP ar gyfer ystyriaeth, a dywedodd fod y polisi yn unol â model cenedlaethol ar gyfer codi tâl am wasanaethau heddlu.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas ag amrediad o fanylion penodol ar gyfer digwyddiadau gwahanol, yn ogystal ag adegau pan mae'r heddlu'n mynd i rywle er mwyn ymgysylltu. Awgrymodd y CHTh y dylid ymgysylltu â chlybiau Ffermwyr Ifainc a chydweithio â sefydliadau megis Taclo'r Tacle yn ystod y cyfnod yn arwain at y digwyddiadau, megis y Sioe Frenhinol, er mwyn bod yn rhagweithiol o ran materion sy'n codi o ddigwyddiadau tebyg.

**Penderfyniad: Cytunwyd y dylid mabwysiadu'r Polisi ar gyfer Codi Tâl am Wasanaethau Heddlu Arbennig a'i weithredu'n gyson.**

**Cam Gweithredu: Awgrymodd y CHTh y dylid ymgysylltu â chlybiau Ffermwyr Ifainc a chydweithio â sefydliadau megis Taclo'r Tacle yn ystod y cyfnod yn arwain at y digwyddiadau, megis y Sioe Frenhinol, er mwyn bod yn rhagweithiol o ran materion sy'n codi o ddigwyddiadau tebyg.**

**ch) Camerâu fideo mewn ceir: Caffael**

Dywedodd y CC fod y tendr ar gyfer camerâu fideo mewn ceir wedi'i gau ar 2 Rhagfyr 2018. Gwobrwywyd y tendr i gwmni Axan ar gyfer 31 dyfais am gost o £236,000. Bydd y cytundeb yn cael ei weithredu yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

**Penderfyniad: Gwobrwyodd y Bwrdd y cytundeb ar gyfer darpariaeth 31 dyfais fideo yn y car i gwmni Axan am gost o £236,000.**

**d) Llofnodi Adduned y Lluoedd Arfog**

Holodd y CHTh pa un ai a fyddai'n bosibl i HDP enwi Hyrwyddwr Lluoedd Arfog gyda golwg ar lofnodi adduned y Lluoedd Arfog mewn digwyddiad ar 20 Chwefror. Dywedodd y DBG/DD y byddai gwaith gyda'r tîm AD ar gyfer annog cyn-swyddogion lluoedd arfog i wneud cais ar gyfer swyddi HDP yn cefnogi'r adduned hon.

**Cam Gweithredu: Sôn am Adduned y Lluoedd Arfog yng nghyfarfod y Grŵp Prif Swyddogion, gyda golwg ar lofnodi'r adduned ar 20 Chwefror.**

**dd) Adroddiad ar Wobrwyo Cytundeb ar gyfer Recordio Cyfweliadau Digidol**

Dywedodd y CC fod yr offer ar gyfer recordio cyfweliadau digidol wedi'i osod yn 2012 a bod angen newid yr offer yn awr. Argymhellodd y CHTh y dylid gwobrwyo'r cytundeb i gwmni Capita am gyfnod o 5 mlynedd.

**Penderfyniad: Gwobrwyodd y Bwrdd y cytundeb ar gyfer Recordio Cyfweliadau Digidol i gwmni Capita am gyfnod o 5 mlynedd am gost o £482,724.70.**

**e) Gwasanaethau cyfreithiol ar y cyd**

Cyfeiriodd y PGC/DD at ohebiaeth a roddwyd i'r PG a'r CHTh cyn y Nadolig mewn perthynas â'r posibilrwydd o gael uned gyfreithiol ar y cyd rhwng HDP a Heddlu De Cymru. Oherwydd cyfyngiadau ariannol presennol, penderfynodd y Bwrdd na fyddai'n bosibl cydweithio â De Cymru.

Amcangyfrifwyd mai'r gost fyddai £600,000 y flwyddyn heb gynnwys argostau a thua threian o gostau staff presennol HDP o £260,000.

**Cam Gweithredu: Y PGC/DD i roi gwybod i Heddlu De Cymru na fydd HDP yn ymuno â nhw mewn uned gwasanaethau cyfreithiol.**

**Penderfyniad: Cytunodd y Bwrdd na fyddai HDP a De Cymru'n cydweithio o ran uned gwasanaethau cyfreithiol.**

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 15/01/2019 | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 2386** | **Trafodaeth i'w chynnal rhwng y CHTh a'r PGC/DD yn dilyn canlyniadau'r arolwg staff.** | **MH** |
| **PB 2387** | **SC i gwrdd â'r PS a'r PSA er mwyn cwblhau'r gofynion ar gyfer y siart Pecyn Data AD sy'n dogfennu llif gwaith a symudiadau swyddogion dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, gan gynnwys gwybodaeth am swyddi sydd â ffrydiau ariannu'n gysylltiedig â nhw, erbyn BP mis Chwefror.** | **SC** |
| **PB 2388** | **Cynnal trafodaeth ynghylch costau System Rheoli Cofnodion y tu allan i gyfarfod y BP.** | **CHTh/SC** |
| **PB 2389** | **Y PGC/DD i roi gwybod i Heddlu De Cymru na fydd HDP yn ymuno â nhw mewn uned gwasanaethau cyfreithiol.** | **DBG/DD** |